CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
27 Medi 2022, Trwy Zoom
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng A Williams, A Wyn, P Ellis, C McGregor, D ap Rhobert, W Williams, D Rees (Cyngor Sir), G Owen (Clerc).	
YMDDIHEURIADAU: Cyng E Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng C McGregor. Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 23.08.22. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	Mynwent Llanddyfnan (tap) – Bydd y Clerc yn cysylltu â'r plymiwr unwaith eto
4.2	Llwybrau cyhoeddus - Mae'r Cynghorydd E Williams yn delio â'r mater hwn. Cytunwyd i ohirio'r mater tan y cyfarfod nesaf
4.3	Gor-yrru Llangwyllog – Dywedodd y Cynghorydd Arfon Wyn bod goryrru fel arfer rhwng 8-9am a 5-6pm. Bydd y Cerk yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r Heddlu
4.4	Lon Ceint - Cytunwyd i dynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
4.5	Glascoed – Cytunwyd i dynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
4.6	Cais am palmant Talwrn - Cytunwyd i dynnu'r mater hwn oddi ar yr agenda
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Llwybrau cyhoeddus - Cais gan y Cyngor Sir i dorri llwybrau cyhoeddus yn Nhawlrn - mae'r Clerc wedi gofyn i'r contractwr gwair am bris
	Llofnod…….Cadeirydd 18.10.22

	Pwyllgor Safonnau
5.2	Mae'r Clerc wedi dosbarthu eu cylchlythyr, eu cais am geisiadau ar gyfer y pwyllgor safonau ac anghenion hyfforddi
	Cynllunio
5.3	HHP/2022/240 Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn Ty Coch, Pentraeth - Dim gwrthwynebiadau heblaw sicrhau bod mynediad i'r llwybr cyhoeddus ar gael
	Polisi
5.4	**Pencampwr laith** - Cytunwyd i symud y mater hwn i'r cyfarfod nesaf
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Marian Ashcroft - Dywedodd Mrs Ashcroft nad yw'r gwair gyferbyn â'i chartref ym Maes y Coed, Talwrn wedi ei dorri ers Mai 2022, er bod gan y cyngor gytundeb iddo gael ei dorri tair gwaith y flwyddyn. Mae'r Clerc wedi gofyn i'r contractwr am y dyddiadau y mae wedi'i dorri eleni
6.2	Archwilio Cymru - Derbyniodd y cyngor adroddiad archwilio Cymru ar gyfer 2021-2022
7	**MATERION ARIANNOL**
	Dim
8	**MATERION ERAILL**
	Dim
9	**MATERION AR GYFER YR AGENDA NESAF**
	Dim
	Llofnod…….Cadeirydd 18.10.22